Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## Adroddiad Blynyddol 2016/17



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
**Y LOTERI GENEDLAETHOL**
**THE NATIONAL LOTTERY®**



# 4.1miliwn

o fynychwyr i ddigwyddiadau sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru

Diwrnod Dawns Taliesin, NoFit State a Motionhouse, Canol y Dref Abertawe (llun: Robert Melen Photography)

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 3 |
| Perfformiad amgylcheddol | 3 |
| Gwybodaeth i reolwyr | 4 |
| Grŵp Monitro Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 7 |
| Tasg 1-6 | 8 |
| Beth a ddysgasom? | 13 |
| Beth y gallwn ei wneud yn well y flwyddyn nesaf? | 13 |
| Atodiad 1 Adroddiad Gweithredu Blynyddol | 14 |
| Atodiad 2 Pensaernïaeth Datblygu Dyfodol Cynaliadwy | 18 |
| Atodiad 3 Dangosyddion Cymdeithasol ac Economaidd | 21 |



hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

Clawr: Tre Cwm, CALL Llandudno, *Creu Cymunedau Cyfoes*

Cymeradwywn yn llwyr ymrwymiad Llywodraeth Cymru i lesiant a chynaliadwyedd. Credwn y bydd cymdeithas ddinesig Cymru yn gryfach a gwytnach os coleddwn werthoedd tegwch a chyfiawnder cymdeithasol. Bydd ystyried y tymor hwy'n awr, ym mhenderfyniadau heddiw, yn gwarchod buddiannau cenedlaethau'r dyfodol.



*It's Art But It's Not*, Prosiect Trebanog, *Creu Cymunedau Cyfoes*
(llun: Jorge Orta)

# Crynodeb



Melanie Hawthorne
Cadeirydd,
Grŵp Monitro Llesiant
Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddasom ddatganiad o bolisi a ddisgrifiai sut y gweithredai Cyngor Celfyddydau Cymru ei weledigaeth am ddatblygu a chynnal Cymru greadigol sy'n diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nod deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Gwedda swyddogaeth y celfyddydau'n dda â'r amcanion llesiant. Cyfranna sector celfyddydol ffyniannus sy'n ymroddedig i ragoriaeth ac arloesedd at lesiant diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i fuddsoddi yn nyfodol pobl Cymru a sicrhau bod ein holl waith a'n polisïau sefydliadol yn wydn a chynaliadwy.

O reoli ein swyddfeydd yn feunyddiol i adolygu ein polisïau, gosodasom ddatblygiad cynaliadwy wrth wraidd ein gwaith.

## Perfformiad amgylcheddol

Cymerwn ein perfformiad amgylcheddol o ddifrif ac yn y blynyddoedd diweddar y canolbwyntiem ein hymdrechion ar fentrau sy'n cynnig buddion yn y tymor hwy.

Disgwylir i bob prosiect cyfalaf y buddsodda'r Cyngor ynddo ddiwallu safonau cynaliadwyedd Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau. Lluniasom Bolisi Amgylcheddol uchelgeisiol ar gyfer ein gwaith ein hunain ac, yn ystod y flwyddyn, y cadwasom ein Hachrediad Draig Werdd, Lefel 5.

Canolbwyntiem ar estyn ein defnydd o seilwaith ein technoleg wybodaeth er cael buddion busnes ac amgylcheddol. Gall pob aelod o'n staff gael hygyrchedd i'n systemau o bell drwy ddolenni diogel a chyda hygyrchedd trydanol llawn i bob system a dogfen ategol. Drwy wneud hyn y gallem leihau ar faint y papur a broseswn ac a storiwn.

Parhawn i hyrwyddo newid ymddygiad. Mae gan y rhan fwyaf helaeth o'n timoedd datblygu'r celfyddydau liniaduron a ffonau clyfar ac felly gallant weithio wrth deithio. I rai o'n staff bu hyn yn fodd i fyrhau teithiau i'r gwaith gan wneud teithio i gleientiaid yn fwy effeithiol. Rydym wedi buddsoddi yn ein gallu cynadledda fideo ymhob un o'n tair swyddfa ac rydym yn ei hyrwyddo'n weithredol yn ddewis amgen i deithio. Gallwn gysylltu ag unrhyw leoliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, a'r tu hwnt, gan gynnwys yn rhyngwladol. Felly gall ein staff gymryd rhan mewn cyfarfodydd â chydweithwyr ac ystod eang o gleientiaid a rhanddeiliaid heb angen teithio, drwy ein hoffer o safon yn ein swyddfeydd neu drwy eu gliniadur.

Hybwn leihau ar wastraff ymhlith ein staff drwy annog lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu a didoli gwastraff sy'n lleihau'r hyn a anfonir i'r safle

tirlenwi. Ailgylchwn ein hoffer TG a swyddfa sy'n ddiangen neu'n rhy hen i'w defnyddio. Defnyddiwn sefydliadau trwyddedig ac addas i waredu ein gwastraff.

Mae gan bob un o'n prif gyflenwyr cyfarpar a chyflenwadau swyddfa bolisïau a systemau adrodd amgylcheddol sydd ar waith ac rydym yn ystyried perfformiad ac ymwybyddiaeth amgylcheddol pan ddewiswn gontractwyr a chyflenwyr.

## Gwybodaeth i reolwyr

Caiff rheolwyr a staff adroddiadau misol sy'n dadansoddi gweithgarwch argraffu a chopïo i annog defnydd is yn gyffredinol. Drwy ein systemau adrodd mewnol gallwn ddal a mesur manylion ein defnydd o ddefnyddiau traul, gwastraff, ynni, a theithio'r staff ac felly ein hallyriadau carbon deuocsid cyfatebol fel y gall staff reoli eu defnydd o'n hadnoddau.


Serch hynny, am fod pob un o'n tair swyddfa gyda phrydles seiliedig ar denantiaeth wedi'i rhannu, a chyda rhai costau wedi'u cynnwys yn ein tâl am wasanaethau, mae hyn yn parhau i gyfyngu ar ein gallu i asesu'n fanwl gywir gyfanswm ein heffaith amgylcheddol a ddaw o ddefnyddio ynni. Yn ein swyddfa yng Nghaerdydd y ceir ein prif ddefnydd o drydan a chadarnhaodd y landlord fod 100% o'r cyflenwad yn dod o ffynonellau Adnewyddadwy a Naturiol (sy'n wiriadwy) sef ynni o'r gwynt, y dŵr a'r haul.

Hyrwyddwn y defnydd o ffyrdd amgylcheddol-gyfeillgar o deithio gan annog y staff i deithio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl gan gymryd i ystyriaeth yr amgylchedd ac arian. Serch hynny, rhaid inni gydbwyso hyn yn erbyn darparu ein blaenoriaethau strategol i ddatblygu celfyddydau Cymru, a hyrwyddo celfyddydau ac artistiaid Cymru yn rhyngwladol. O ganlyniad, mae amrywiadau anochel yn lefel allyriadau carbon deuocsid cyfatebol oherwydd teithio, yn enwedig pan ydym yn weithgar yn rhyngwladol. Eleni, wrth ategu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ymgymerasom â rhaglenni gwaith rhyngwladol yn India a Thsieina. Ond rydym yn gwella wrth leihau'r agwedd negyddol a mwyafu effaith gadarnhaol y fath waith.

**£96miliwn**


**oedd trosiant blynyddol y Portffolio**

Allyriadau $CO_2e$ – tuedd dros 5 mlynedd




Darperir ein Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, a ddechreuodd yn 2015/16, drwy ysgolion ledled Cymru. Yn anochel mae hyn yn ychwanegu at ein lefelau teithio gan esgor ar 8 tunnell fetrig o garbon deuocsid cyfatebol a gynhwysir yn y cyfansymiau a adroddwn ar gyfer 2016/17 (2015/16: 6 thunnell fetrig).

Y defnydd o ynni yn ein swyddfeydd a milltiroedd busnes



| GWASTRAFF | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|
| Gwastraff: | | |
| Anariannol (tunelli metrig) | | |
| Safle tirlenwi | 0.12 | 0.12 |
| Ailddefnyddio/ailgylchu | 2.74 | 1.43 |

| YNNI | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|
| Allyriadau nwy tŷ gwydr (tunelli metrig o garbon deuocsid cyfatebol) | | |
| Allyriadau yn eu crynswth, cwmpas 2 a 3 (anuniongyrchol) | 57 | 56 |
| Defnyddio ynni (awr gilowat) | | |
| Trydan (anadnewyddadwy) | Amherthnasol | 110,033 |
| Trydan (adnewyddadwy) | 123,359 | Amherthnasol |
| Nwy *(2015/16 mewn tunelli metrig – nid yw awr gilowat ar gael)* | 7,381 | *941* |
| Dangosyddion ariannol (£) | | |
| Gwariant – ynni | 14,521 | 13,448 |
| Costau cyflenwi dŵr (ystâd y swyddfa) – ar hyn o bryd nid allwn eu hasesu am y cynhwysir hwy yn y tâl am wasanaeth | Amherthnasol | Amherthnasol |

| TEITHIO'R STAFF | 2016/17 | 2015/16 |
|---|---|---|
| Allyriadau teithio (tunelli metrig o garbon deuocsid cyfatebol) | | |
| Trên | 10 | 8 |
| Awyren[1] | 64 | 71 |
| Ceir/faniau | 24 | 28 |
| Cost teithio (£) | | |
| Trên | 28,081 | 27,364 |
| Awyren | 24,935 | 24,788 |
| Ceir/faniau | 34,905 | 39,889 |
| Teithio (milltiroedd) | | |
| Trên | 130,946 | 114,171 |
| Awyren | 256,538 | 284,562 |
| Ceir/faniau | 76,106 | 86,644 |

Mae ein teithio ar awyrennau yn adlewyrchu'r ffaith ein bod wedi ategu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ystod 2016/17 drwy gynnal rhaglenni o waith rhyngwladol yn India a Tsieina.

[1] Sy'n cynnwys dylanwad y newid yn y cydbwysedd ymbelydrol ynghlwm wrth deithio awyr i ddal yr effaith fwyaf ar yr hinsawdd. Dyma beth yw newid yn y cydbwysedd ymbelydrol: mesur o'r effaith amgylcheddol yn yr allyriadau o ocsidau nitraidd ac ager dŵr wrth gael eu rhyddhau yn uchel yn yr awyr.

# Grŵp Monitro Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymerodd y Cyngor o ddifrif fonitro ei gyfrifoldebau dan Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol. Gosodasom darged uchel iawn i ni ein hunain ac rydym yn hynod awyddus i ddiwallu ein rhwymedigaethau a hyrwyddo'r egwyddorion sydd ynghlwm wrth y ddeddfwriaeth.

Dirprwywyd y gwaith beunyddiol o sicrhau y gwnawn gynnydd i Grŵp Monitro Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dan gadeiryddiaeth Melanie Hawthorne sy'n aelod o'r Cyngor. Hefyd ymhlyg wrth y gwaith mae Alan Watkin (aelod arall o'r Cyngor), Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio (sydd hefyd yn arweiniad strategol y Cyngor yn y maes hwn) ac aelodau eraill o'r staff o wahanol adrannau.

Amlinella cylch gorchwyl y grŵp 6 thasg allweddol:

1. Cwmpasu'r galw sydd mewn deddfwriaeth newydd a chyfredol ac yng nghyfarwyddebau'r Llywodraeth i greu strategaeth Datblygu Cynaliadwy i Gyngor Celfyddydau Cymru a chreu map ar gyfer ei gweithredu drwy waith a gwasanaethau craidd y Cyngor.

2. Datblygu arweinyddiaeth ar egwyddorion o ddatblygu cynaliadwy drwy gydol y Cyngor a'r staff a thrwy ein partneriaethau gan gynnwys y rhai gyda'r sefydliadau yn ein Portffolio.

3. Newid agweddau tuag at ddatblygu cynaliadwy fel y caiff ei ystyried yn elfen allweddol yn hytrach na rhywbeth ychwanegol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

4. Meithrin parch, cyd-ddiwylliant a chydweithio yn ein holl broses o ddyrannu grantiau o ran egwyddorion datblygu cynaliadwy.

5. Cyfrannu at fonitro cydymffurfio Cyngor Celfyddydau Cymru â'r holl ofynion datblygu cynaliadwy statudol a rheoleiddiol sy'n berthnasol a'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol sy'n gysylltiedig.

6. Goruchwylio datblygu, gweithredu a monitro prosiectau datblygiad cynaliadwy penodol. Mae'n cynnwys monitro darparu ein cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy a chyfrannu at ein proses asesu effaith ar gydraddoldeb.

Gwnaed gwaith parhaus drwy'r flwyddyn i gyflawni'r tasgau hyn. Ymgyfarfyddai Grŵp Monitro Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rheolaidd drwy'r flwyddyn i fonitro cynnydd. Llunia'r Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio Adroddiad Cyfarwyddwr i bob cyfarfod sy'n nodi cynnydd yn ôl pob un o'r tasgau yn y cylch gorchwyl a chreffir ar y rhain gan aelodau o'r grŵp. Cofnodir awgrymiadau o ran gwella, gwaith angenrheidiol, cysylltiadau â strategaethau neu faterion sy'n codi.

**3,937**

**o bobl a gyflogid yn uniongyrchol gan y Portffolio**

Yn ogystal â'r tasgau mewnol hyn a nodir yn y cylch gorchwyl, ymgymer y Grŵp â swyddogaeth fonitro drosfwaol o ran gofynion y ddeddfwriaeth a'r rhwymedigaethau a ddeillia o'r Ddeddf o ran adrodd, strwythurau, prosesau a gofynion Swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gwaith sy'n cefnogi'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus/awdurdodau lleol, cyfrannu at gynllunio corfforaethol a monitro ymgorffori ein Polisi Datblygiad Cynaliadwy/ Amcanion Llesiant i'n gwaith pob dydd.

Rhan o ddogfennau'r Cyngor yw cofnodion y grŵp ac mae cyfle ar yr agenda i'r Cadeirydd godi materion neu bryderon strategol sydd arnynt angen eu rhannu â phob aelod o'r Uwch Tîm Arwain a'r Cyngor wedyn.

**6,512**

**o sesiynau hyfforddi a ddarperid gan y Portffolio**

## Tasg 1: Diwallu ein Cyfrifoldebau Deddfwriaethol

Yn 2016/17 monitrasom ein cynnydd o ran tasgau beunyddiol i ddiwallu ein rhwymedigaethau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhob cyfarfod. Gweler Crynodeb Diwedd y Flwyddyn yn Atodiad 1. Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r tasgau a nodwyd. Mae'r sgôr Felen ar nifer o dasgau sy'n ymwneud â dal data a gwella prosiect. A hynny oherwydd yr ymgorfforwyd hwy yn ein Cynllun Pontio a Gweithredu yn sgil yr ad-drefnu mewnol diweddar. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol am ei fod yn cynnwys amcan Llesiant yn ein gweithgareddau a chydweithio corfforaethol ag aelodau eraill o'r staff. Mae'n siŵr yr arweinia hyn at well canlyniad yn y pen draw. Ar y llaw arall effeithiodd ar yr amserlen.

Ein cyflawniadau pennawd - rydym wedi:

- Cyhoeddi Amcanion/Datganiad o Bolisi am Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cyhoeddi Polisi Amgylchedd.
- Olrhain ein cynnydd corfforaethol wrth ddarparu dogfennaeth a hyfforddiant ac wrth gyfathrebu.
- Ymgymryd â sesiynau ymsefydlu gydag aelodau newydd o'r staff.
- Llwyddo cyrraedd y Ddraig Werdd (lefel 5) am ein perfformiad amgylcheddol.
- Archwiliodd Deloitte ein parodrwydd at Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chafodd y Cyngor sicrwydd sylweddol y gallwn ddiwallu ein rhwymedigaethau.
- Mynychu pob gweithdy a sesiwn hyfforddi berthnasol a gynhelid gan swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Swyddfa Archwilio Cymru.

### Tasg 2: Ymaflyd â'r Her

A ninnau'n gorff cyhoeddus ac ariannwr, sylweddolwn ein bod mewn sefyllfa o rym a dylanwad ac y gallwn fanteisio ar hynny i hyrwyddo amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac egwyddor datblygiad cynaliadwy yn ein gwaith. Dewisasom fynd y tu hwnt i'n tiriogaeth arferol hefyd er mwyn dod â dychymyg a chreadigrwydd i wynebu sawl her sy'n rhan o'n byd cyfredol.

- Aelod o Gomisiwn Newid yr Hinsawdd yng Nghymru oedd y Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio.
- Yn ystod y flwyddyn arianasom labordy datblygu arweinyddiaeth i ymarferwyr celfyddydol mewn cydweithrediad â Chanolfan Ymchwil er Budd y Cyhoedd sy'n elusen annibynnol.
- Datblygasom ddeunyddiau eiriolaeth ac ymgymerasom â gwaith strategol uchel ei lefel i dynnu'r sector celfyddydol i nifer o feysydd o'r bywyd cyhoeddus - yn amlycaf drwy'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.

### Tasg 3: Newid agweddau

Ymheriodd Cyngor Celfyddydau Cymru i ymgorffori egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy ym mhob agwedd ar ei waith. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf cyflawnasom y canlynol:

- Yn ystod ein had-drefnu staff diweddar, roedd dwy rownd o ymgynghori â'r staff a effeithiodd yn uniongyrchol ar ganlyniad y broses.
- Sefydlasom grwpiau ffocws allanol i fewnbynnu i'r broses o ail-ddylunio gwasanaethau.
- Prif-ffrydiasom 7 Amcan Llesiant i'n Cynllun Gweithredol ar gyfer 2017/2018. Nid ydym wedi cyhoeddi amcanion llesiant ar wahân.
- Sefydlasom sesiynau ymsefydlu i aelodau newydd o'r staff.

## £7.9miliwn

### o arian y loteri i brosiectau a ddigwyddai mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf

### Tasg 4: Gweithio gyda'n gilydd

I feithrin parch, cyd-ddiwylliant a chydweithio, rydym wedi mabwysiadu set o werthoedd mewnol – Gwerthoedd ar Waith. Datblygwyd y rhain gan ein Grŵp Arolwg Staff a chânt eu hymgorffori yn ein Cynllun Gweithredol y flwyddyn nesaf. Mae ein cyflawniadau dan y dasg hon yn cynnwys:

- Cyhoeddi set o werthoedd mewnol.
- Mae gan y Cynllun Pontio a Gweithredu am yr ad-drefnu diweddar feysydd gwaith sy'n canolbwyntio ar gydweithio a chydweithredu ac atal gweithio'n ynysig.

Buom yn cydweithio'n agos hefyd ag Uned Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ymhob ardal i integreiddio'r sector celfyddydol yn yr isadeiledd sy'n ymffurfio ac i ddarparu eiriolaeth, rhwydweithio a chefnogaeth gan eraill yn y sector.

- Cynnal dau weithdy – un yn y Gogledd ac un yn y De – ar gyfer cydlynwyr Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.
- Ysgrifennu at bob arweinydd yn yr awdurdodau lleol, pob Prif Weithredwr a phob cydlynydd Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i amlinellu ein cynnig i gydweithio'n agos â hwy wrth ddatblygu'r nod diwylliannol.
- Cyhoeddi dogfen eiriolaeth i hyrwyddo swyddogaeth y celfyddydau wrth ddiwallu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**87%**

**o blant a phobl ifainc Cymraeg yng Nghymru a fynychodd ddigwyddiad celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn**

## Tasg 5: Beth gyflawnasom hyd yn hyn?

Swyddogaeth bwysig i'r Grŵp Monitro yw sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydymffurfio â phob gofyniad statudol a rheoleiddiol perthnasol parthed datblygiad cynaliadwy a'r dyletswyddau penodol a chyffredinol sy'n gysylltiedig. Rydym wedi mapio'r holl ofynion a gwiriwn gynnydd ymhob cyfarfod. Ond mae'n bwysig inni ymwrthod ag agwedd 'ticio'r blwch'. Ein tasg yw bod yn ymwybodol ac effeithlon yn y ffordd y gweithredwn unrhyw ofynion gan beidio â'u lleihau i'r fath raddau fel y collant eu hystyr a chreu gwaith di-fudd.

Eleni yr ydym wedi:

- Llwyddo gyda rhagoriaeth mewn archwiliad mewnol o'n prosesau, ein gweithdrefnau a'n parodrwydd at y Ddeddf.
- Defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio wrth ddatblygu strategaethau a phrosiectau.
- Ystyried sut y gall pob punt a fuddsoddwn gyfrannu at Amcanion Llesiant drwy gynnwys dadansoddiad ymhob dogfen bolisi a ystyrir gan ein Huwch Tîm Arwain a'n Cyngor.
- Cynnwys ein staff mewn ymgynghoriad am ein hailstrwythuro.
- Cael lefel 5 y Ddraig Werdd am ein perfformiad amgylcheddol.
- Ceisio cynyddu ein defnydd o asiantwyr lleol yn ein gwaith rhyngwladol wrth gydnabod effaith hedfan ar ein hôl troed carbon.

### Tasg 6: Peri bod newid yn digwydd

Yn rhan o'n hymrwymiad i orchwylio datblygu, gweithredu a monitro prosiectau datblygu cynaliadwy penodol, arianasom sawl prosiect celfyddydol o'n harian loteri ar thema materion amgylcheddol er mwyn tynnu sylw atynt a hyrwyddo trafodaeth.

- Eleni datblygasom bartneriaeth gyda Chronfa Bywyd Gwyllt y Byd i gomisiynu artist i ddathlu Awr y Ddaear ar 26 Mawrth 2017. Penodwyd Lulu Guinness a bu'n cydweithio â chymunedau i gynhyrchu potel anferth gyda photeli dwr llai a ailgylchwyd. Cafodd y botel fawr ei harddangos yn y Senedd ym Mae Caerdydd.



## 78%

## o oedolion Cymru a fynychodd ddigwyddiad celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn



Oriel Gelf Glynn Vivian, Penwythnos Agoriadol
(llun Phil Rees © Dinas a Sir Abertawe)

## Beth a ddysgasom?

Yn ystod y flwyddyn dysgasom y canlynol:

- Drwy archwilio data ein hôl troed carbon yn rheolaidd, gallwn weld pa feysydd o'n gwaith sy'n gadael ôl troed carbon anghyfartal. Wrth gwrs ni allwn bob tro hepgor gwneud pethau, ond buom yn ystyried ffyrdd creadigol o leihau ein hallyriadau, gan gyflawni pethau'n well hefyd.
- Mae'r Cyngor a'r staff yn gefnogol iawn ac yn awyddus i wneud cyfraniad cadarnhaol drwy ddefnyddio ein grym a'n hawdurdod er da.
- Wrth ddysgu pobl am y Ddeddf, codwn eu hyder i eiriol drosti.
- Yr hyn sy'n drwsgl a newydd ar y cychwyn a â'n rhywbeth arferol wedyn e.e. didoli ein gwastraff a chynnwys staff wrth benderfynu.
- Pwysigrwydd cael fframwaith clir ar waith a ffyrdd o gyfathrebu ynddo.
- Defnyddio'r hyn sy'n gweithio'n barod e.e. sesiynau un-wrth-un i'r staff i drafod cynaliadwyedd.

**86%**

**o blant a phobl ifainc Cymru a ymgyfranogodd o ddigwyddiad celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn**

## Beth y gallwn ei wneud yn well y flwyddyn nesaf?

Gallwn wella'r canlynol:

- Darparu rhagor o ddeunyddiau gwell i rannu gwybodaeth yn fewnol ac allanol.
- Creu cysylltiadau â gwaith Grwpiau Monitro eraill.
- Gweithio gyda'n Sefydliadau Portffolio i wella perfformiad amgylcheddol a chynaliadwyedd cyffredinol.
- Parhau i wella ein perfformiad amgylcheddol.
- Cymryd y Ddeddf i ystyriaeth wrth benderfynu am arian.
- Integreiddio ein gwaith â gwaith cyrff cyhoeddus eraill.
- Cynyddu nifer y cydweithiadau a'r partneriaethau yr ydym ynghlwm wrthynt.
- Parhau i wrando ar ein staff, ein rhanddeiliaid a'n buddiolwyr.
- Gweithio ar weithredu'r Bensaernïaeth er Datblygu Cynaliadwy yng Nghyngor y Celfyddydau (Atodiad 2).
- Sicrhau bod ein Cynllun Gweithredol yn diwallu'r Amcanion Llesiant drwy graffu gan y Grŵp Monitro yn rheolaidd.

# Atodiad 1

Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol
Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2016-17



| Dogfennaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasg | Statws | Perchennog | Timoedd ynghlwm | Dyledus | Sgôr |
| Dogfen grynhoi | Wedi'i chyflawni. | Llywodraeth Cymru | Pawb | Mawrth 2016 | Gwyrdd |
| Datganiad Polisi | Wedi'i gyflawni ac ar gael ar-lein. | Cyngor/Uwch Tîm Arwain | Pawb | Hydref 2016 | Gwyrdd |
| Polisi Amgylcheddol wedi'i gymeradwyo a'i fonitro | Wedi'i gyflawni ac ar gael ar-lein. Yn cael ei fonitro'n rheolaidd yn y cyfarfodydd Llesiant. Wedi cael lefel 5 y Ddraig Werdd. | Rheolwr Cyfleusterau | Gwasanaethau Canolog a Chyfleusterau | Hydref 2016 | Gwyrdd |
| Pecyn Gwybodaeth Ymsefydlu | Dogfennau'n barod Wedi'u cyhoeddi ar y fewnrwyd yn adnoddau. Erbyn hyn y caiff staff mewnol newydd sesiwn am Lesiant yn rhan o'u hymsefydlu gan Gyfarwyddwr Mentro ac Adfywio.Ni chafodd eto aelodau newydd o'r Cyngor sesiwn ymsefydlu am Lesiant. | Arweinydd Strategol y Ddeddf | Adnoddau Dynol/ Mentro ac Adfywio | Chwefror 2017 | Gwyrdd |
| Prosbectws y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus | Wedi'i wneud a'i ddosbarthu. | Grŵp Prosiect Awdurdodau Lleol | Pawb | Ionawr 2017 | Gwyrdd |

| Cyfathrebu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasg | Statws | Perchennog | Timoedd ynghlwm | Dyledus | Sgôr |
| Ymwybyddiaeth (fewnol) | Profwyd hon yn yr Archwiliad mewnol diweddar pan gysylltodd Deloitte â detholiad ar hap o'r staff. Ni chafwyd dim adborth negyddol.<br><br>Mae'r adnoddau erbyn hyn ar Hwb ar gyfer staff. Gofynnodd rheolwyr am gael cyfnod o'u cyfarfodydd un-wrth-un â'u rheolwyr llinell i drafod goblygiadau'r Ddeddf i'n gwaith.<br><br>Angen ei fonitro i fod yn effeithiol. | Uwch Tîm Arwain/ cyfathrebu/rheolwyr | Pawb | Mawrth 2017 | Gwyrdd |

## Cyfathrebu

| Tasg | Statws | Perchennog | Timoedd ynghlwm | Dyledus | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth (allanol) | Angen cynllunio strategaeth gyfathrebu allanol ar gyfer ein swyddogaeth parthed y Ddeddf.<br>Angen cynllunio cyfathrebu â Phortffolio Celfyddydol Cymru yn rhan o'u trefniadau newydd.<br>Cafwyd cyhoeddusrwydd da o'n prosiect partnerol gyda Chronfa Bywyd Gwyllt y Byd (Awr y Ddaear). | Cyngor/Uwch Tîm Arwain | Cyfathrebu | Mawrth 2017 | Melyn |
| Comisiynu prosiect ar thema amgylcheddol | Partneriaeth wedi'i datblygu gyda Chronfa Bywyd Gwyllt y Byd ac artist wedi'i gomisiynu i ddathlu Awr y Ddaear. Prosiect wedi'i gyflawni. | Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd | Mentro ac Adfywio<br>Tîm Cyfathrebu | 26 Mawrth 2017 | Gwyrdd |
| Prosbectws sy'n disgrifio'r hyn y gall y celfyddydau ei gyfrannu at waith y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus wedi'i gyhoeddi i godi ymwybyddiaeth | Wedi'i gomisiynu a'i gyhoeddi.<br>Gweithdai gyda chydlynwyr y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus wedi'u cynnal.<br>Sesiwn a gynhaliwyd yn ystod y Gynhadledd i'w lansio.<br>Dosbarthu e-bost drwy Brif Swyddogion Diwylliant a Hamdden Cymru.<br>Copïau i'r Cyngor.<br>Wedi'i bostio i arweinwyr Cynghorau, Prif Weithredwyr a Chydlynwyr Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus. | Grŵp Prosiect Awdurdodau Lleol | Tîm y Celfyddydau a Mentro ac Adfywio | 4 & 14 Tachwedd<br><br>17 Tachwedd<br><br>Diwedd Tachwedd | Gwyrdd |

## Monitro

| Tasg | Statws | Perchennog | Timoedd ynghlwm | Dyledus | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi cytuno ar fethodoleg y cynllunio ac adrodd | Wedi cytuno ar Gynllun Camau Gweithredu ar gyfer 2016/17.<br>Wedi cael ei ymgorffori ym maes gwaith *Adeiladu Cynhwysedd ein Gwybodaeth* yn y Cynllun Pontio a Gweithredu a datblygiad y cynllun corfforaethol newydd. | Grŵp Monitro Ymchwil | Grŵp Monitro/ Uwch Tîm Arwain/ Cyngor<br>Pob rheolwr prosiect a phob rheolwr llinell | Cyfarfodydd y Grŵp Monitro yn ystod y flwyddyn | Melyn |

| Monitro | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasg | Statws | Perchennog | Timoedd ynghlwm | Dyledus | Sgôr |
| Wedi cytuno ar fethodoleg dysgu a gwella | Wedi'i gynnwys yng Nghynllun Pontio a Gweithredu'r Adolygiad Sefydliadol, fel uchod. | Cyfarwyddwr Mentro ac Adfywio | Ymchwil/TG/Grŵp Monitro/Uwch Tîm Arwain<br>Pob rheolwr prosiect a phob rheolwr llinell | Rhagfyr 2016 | Melyn |
| Wedi cytuno ar fethodoleg yr adrodd amgylcheddol | Defnydd o bapur wedi'i fonitro'n fisol gan reolwyr.<br>Ôl troed carbon wedi'i fonitro ymhob cyfarfod o'r Grŵp Monitro.<br>Diweddariadau amgylcheddol bob chwarter i'r Uwch Tîm Arwain. | Rheolwr Cyfleusterau | Rheolwyr llinell a'r Uwch Tîm Arwain | Mehefin/Medi/ Rhagfyr/Mawrth | Gwyrdd |

| Dal data | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasg | Statws | Perchennog | Timoedd ynghlwm | Dyledus | Sgôr |
| Gwella sut yr ydym yn casglu, arbed a defnyddio data a gwybodaeth i wella perfformiad a chanlyniadau | Grŵp Prosiect wedi'i ffurfio ac wedi cytuno ar Ddogfen Cychwyn Prosiect.<br>Erbyn hyn mae wedi mynd yn faes 'Adeiladau Cynhwysedd ein Gwybodaeth' yn y Cynllun Pontio a Gweithredu.<br>Gwaith ar adolygu'r arolwg blynyddol. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu | Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu/TG/Adran Ymchwil/yr holl staff | | Melyn |

# Atodiad 2

Pensaernïaeth Datblygu Dyfodol Cynaliadwy

| Gweddu | |
|---|---|
| Cyn | Ar ôl |
| Roeddem yn arfer meddwl bod hyn yn wir... | Ond erbyn hyn mae gennym dystiolaeth bod… |
| Ymgynghori<br><br>Mae arnom angen meddwl am yr hyn sy'n bosibl, wedyn gofyn yn ffurfiol i'r cyhoedd amdano, addasu ein barn yn sgil y sylwadau hyn, cynghori ein Gweinidog neu'n Prif Weithredwr ynghylch ffyrdd posibl o fynd ymlaen, dyfeisio dulliau gweithredu ac ymgynghori eto am y rhain, yn ôl i'r Gweinidog am gymeradwyaeth yn y blaen. | Cydgynhyrchu<br><br>Mae arnom angen ymgysylltu â'r Gweinidogion yn gynnar a sicrhau eu hymwneud parhaus â swyddogion a rhanddeiliaid. Mae arnom angen cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu (neu'r cyfateb) drwy gydweithio ag eraill i ddatblygu cydganlyniadau, cydbrosiectau a mecanwaith adrodd ar y cyd. |
| Ymyrryd<br><br>Mae arnom angen ymyrryd i dorri arfer afiach neu drwsio rhywbeth a dorrwyd; seiliedig ar fodel claf-arbenigwr, dioddefwr-cynorthwyydd neu broblem-ateb. | Atal<br><br>Mae arnom angen cydweithio i gynyddu rhyngddibyniaeth rhwng dinasyddion a'r sector cyhoeddus. Gellir newid ymddygiad yn fwy llwyddiannus os oes gan bobl berchnogaeth uniongyrchol a defnyddio eu profiad eu hunain a phrofiad eraill yn ymgyfranogwyr cyfartal, yn hytrach na bod yn gwsmeriaid dan ddylanwad gwasanaethau neu ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd. |
| Gweithio'n ynysig<br><br>Yr unig adborth rydw i'n gwrando arno yw adborth am fy maes i. Hyd yn oed os mai fi yw'r unig gynrychiolydd o'm sefydliad yn yr ystafell; mae materion eraill ar gyfer pobl eraill, nid fi. | Cyfrifoldeb<br><br>Mae pob adborth yn gyfle dysgu. Os caf adborth am unrhyw agwedd ar waith fy sefydliad, mae gennyf gyfrifoldeb am nodi pwy sydd â diddordeb yn yr agwedd honno ar ein gwaith, trosglwyddo'r neges yn bersonol a helpu os gallaf. |

| Effaith | |
|---|---|
| Cyn | Ar ôl |
| Roeddem yn arfer meddwl bod hyn yn wir... | Ond erbyn hyn mae gennym dystiolaeth bod… |
| Problemau<br><br>Datrysir problemau drwy eu datgymalu i'w rhannau unigol, creu asiantaethau ac atebion penodol i ddatrys pob rhan a mynd i'r afael â phob anhawster ar wahân. | Lleoedd<br><br>Mae arnom angen dechrau drwy ystyried effeithiau cyfunol ein gweithrediadau yn y byd go iawn; cael gwybod rhagor am y cyfleoedd yn y cysylltiadau rhwng y bobl, y lleoedd a'r cymunedau a effeithir; rhannu ein gwybodaeth a datblygu ffyrdd integredig sy'n ceisio datrys sawl her. |
| Atebion Tymor Byr<br><br>Yn seiliedig yn y model derbynnydd/defnyddiwr y darparwn restrau dewis o wasanaethau neu ymyriadau gyda'r nod o ddelio â symptomau yn hytrach na'r achosion gwaelodol heb unrhyw hyblygrwydd i gleientiaid neu broffesiynolion. | Perthynasau Hir Dymor<br><br>I ddatrys problemau dyrys, mae arnom angen pawb wrth y bwrdd; mae gan y derbynnydd neu'r cwsmer gymaint i'w gynnig ag y sydd gan yr arbenigwr. Mae arnom angen ymroi i bobl i gael gwybod beth yw cryfderau pawb ac adeiladu arnynt a chynyddu ymddiriedaeth. |

| | |
|---|---|
| **Effaith** | |
| Cyn | Ar ôl |
| Roeddem yn arfer meddwl bod hyn yn wir... | Ond erbyn hyn mae gennym dystiolaeth bod… |
| Mesuro<br><br>Mae arnom angen meddwl am ba wybodaeth a thystiolaeth mae arnom eu hangen ar gyfer pob prosiect neu bolisi unigol a sefydlu contractau i gael hyn drwy ddylunio prosiectau ymchwil o'r newydd. | Synhwyro<br><br>Mae arnom angen mwyafu defnydd y wybodaeth sydd eisoes yn bodoli a ffynonellau hir dymor o ddata a datblygu gwybodaeth a sgiliau arbenigwyr a phobl gyffredin drwy integreiddio gwyddoniaeth ac ymchwil (eu datblygiad a'u defnydd) yn ein polisi a'n gwaith. |
| **Cost** | |
| Cyn | Ar ôl |
| Roeddem yn arfer meddwl bod hyn yn wir... | Ond erbyn hyn mae gennym dystiolaeth bod… |
| Effeithlonrwydd<br><br>I gyflawni canlyniadau mae arnom angen sicrhau bod popeth mor fawr, mor syml ac mor gyflym â phosibl, gan ddefnyddio'r adnoddau lleiaf posibl; gan gynnwys adnoddau dynol. | Gwytnwch<br><br>Mae arnom angen bod yn effeithlon gyda'n defnydd o adnoddau corfforol drwy ddylunio a saernïo cylch bywyd cyfan; lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu. Ar gyfer adnoddau naturiol a dynol mae arnom angen cynyddu gwytnwch, hynny yw, ein gallu hir dymor i ymdopi â newid drwy ddysgu parhaus. |
| Lleihau perygl<br><br>Rhoddwn ein ffydd mewn cofnodion perygl a ddyluniwyd yn ofalus a phrosesau manwl sy'n ein hamddiffyn rhag beirniadaeth a nodi achos unrhyw fethiant ar ôl iddo ddigwydd. | Rheoli perygl<br><br>Dim ond d0rwy fentro y gallwn ddysgu a gwella. Mae cynyddu ein dealltwriaeth o'r peryglon hir dymor sylweddol sy'n ein hwynebu'n awr ac yn y dyfodol yn ein cynorthwyo i gynyddu ein hawydd i fentro yn y byr dymor mewn ffordd a reolir yn briodol. |
| Negodi<br><br>Mae arnom angen bargeinio i dalu'r lleiaf am y mwyaf posibl. | Rhoddion<br><br>Mae arnom angen bod yn hael gyda'n hamser, ein hymdrechion a'n sgiliau wrth fod, ar yr un pryd, yn glir am egwyddorion datblygu cynaliadwy megis yr angen i amddiffyn a gwella asedau Cymru (cyfalaf cymdeithasol, corfforol ac amgylcheddol). |
| **Mecanwaith** | |
| Cyn | Ar ôl |
| Roeddem yn arfer meddwl bod hyn yn wir... | Ond erbyn hyn mae gennym dystiolaeth bod… |
| Trydan<br><br>Mae arnom angen meddwl yn fanwl, fanwl am yr hyn a wnawn wedyn cael arian ac argyhoeddi eraill i'w wneud. | Drama<br><br>Mae arweinyddiaeth yn digwydd ymhob man. Mae arnom angen rhannu tystiolaeth a chydweithio i nodi'r ffordd orau ymlaen sydd wedi'i chydlynu; creadigrwydd yw'r allwedd. |

| Mecanwaith | |
|---|---|
| Cyn | Ar ôl |
| Roeddem yn arfer meddwl bod hyn yn wir... | Ond erbyn hyn mae gennym dystiolaeth bod… |
| Mwyafu<br><br>Mae arnom angen creu modelau/prosiectau y gellir eu copïo'n hawdd a'u hatgynhyrchu bob man arall. | Ysbrydoli<br><br>Mae arnom angen dysgu oddi wrth arbrofion go iawn ar lawr gwlad a'u defnyddio i ysbrydoli eraill mewn lleoedd eraill i ymgymryd â ffyrdd tebyg, ond gwahanol, o weithio. |
| Gwirio<br><br>Mae arnom angen cynllunio a monitro mor fanwl â phosibl, ar bapur neu'n drydanol, i sicrhau bod pob agwedd yn cael ei diwallu mewn da bryd. | Llif<br><br>Mae arnom angen digon o broses (a dim gormod) i gefnogi pawb i gyflawni'r canlyniadau drwy geisio, methu ac ail-geisio; mesuro llwyddiant, dysgu gwersi a darganfod rhagor fel yr awn ymlaen. |
| **Rheolwyr** | |
| Cyn | Ar ôl |
| Roeddem yn arfer meddwl bod hyn yn wir... | Ond erbyn hyn mae gennym dystiolaeth bod… |
| Arwr<br><br>Credwn mai ni yw'r unig rai a all ddatrys y broblem; dim ond imi weithio oriau hwy, dysgu'r dechneg newydd neu newid fy arferion gwael. Neu credwn y daw rhyw arwr o'r gwyll i'n harbed. | Cynnwys pobl<br><br>Ni allwn ei wneud ar ein pen ein hunain. Os gwahoddwn bobl amrywiol i ddod at ei gilydd a chynnal sgyrsiau am broblemau go iawn, wedyn yr ydym yn creu, rheoli a darparu atebion a fydd yn parhau. Mae arnom angen ymarfer a datblygu ein sgiliau o ran cynnwys pobl. |
| Cysondeb Corfforaethol<br><br>I fod yn llwyddiannus mae ar bawb angen cydymffurfio â'r un patrymau ac ymddygiadau biwrocrataidd sylfaenol. | Gwerthfawrogi Amrywiaeth<br><br>I fod yn wydn mae arnom angen gweithlu amrywiol, brwdfrydig a unir gan awydd i ddysgu ac ymrwymiad i'r cod gwasanaeth sifil (neu unrhyw god moesegol arall). |

# Atodiad 3
Dangosyddion Cymdeithasol

Arolygon Omnibws

| Mynychu a chymryd rhan: | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran oedolion Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 76.3 | 75.1 | 79.8 | 78.6 | 78.1 |
| Canran plant/pobl ifainc Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 79.5 | 85.4 | 85.9 | 88.7 | 82.9 |
| Canran oedolion Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 40.2 | 34.9 | 40.1 | 41.2 | 44.1 |
| Canran plant/pobl ifainc Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 80.2 | 84.3 | 82.3 | 88.5 | 86.3 |

| Safle cymdeithasol: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran oedolion ABC1 Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 84.4 | 83.7 | 87.6 | 84.8 | 85.2 |
| Canran oedolion C2DE Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 69.6 | 68.8 | 74.2 | 74.6 | 70.8 |
| Canran plant/pobl ifainc ABC1 Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 82.4 | 88.5 | 88.9 | 90.5 | 87.9 |
| Canran plant/pobl ifainc C2DE Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 76.6 | 82.4 | 83.4 | 87.0 | 78.5 |
| Canran oedolion ABC1 Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 49.5 | 43.2 | 48.4 | 45.8 | 51.5 |
| Canran oedolion C2DE Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 32.3 | 28.8 | 34.1 | 38.3 | 36.3 |
| Canran plant/pobl ifainc ABC1 Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 83.3 | 86.5 | 83.2 | 89.8 | 90.8 |
| Canran plant/pobl ifainc C2DE Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 77.1 | 82.1 | 81.5 | 87.3 | 82.3 |

| Rhywedd: | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran dynion Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 72.6 | 74.0 | 79.1 | 76.7 | 75.8 |
| Canran menywod Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 79.7 | 76.1 | 80.5 | 80.5 | 80.3 |
| Canran bechgyn/pobl ifainc gwrywaidd Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 77.3 | 83.4 | 84.3 | 86.0 | 80.4 |
| Canran merched/pobl ifainc benywaidd Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 82.2 | 87.7 | 87.7 | 91.6 | 85.9 |
| Canran dynion Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 37.1 | 31.9 | 40.3 | 37.6 | 39.0 |
| Canran menywod Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 43.1 | 37.8 | 40.0 | 44.6 | 48.9 |
| Canran bechgyn/pobl ifainc gwrywaidd Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 78.5 | 83.2 | 80.8 | 87.8 | 82.3 |
| Canran merched/pobl ifainc benywaidd Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 81.9 | 85.6 | 83.9 | 89.3 | 90.4 |

| Y Gymraeg: | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran oedolion Cymraeg Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 79.0 | 82.6 | 81.0 | 80.7 | 79.6 |
| Canran oedolion di-Gymraeg Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 75.0 | 72.3 | 79.5 | 77.9 | 77.7 |
| Canran plant/pobl ifainc Cymraeg Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 84.9 | 89.1 | 90.6 | 88.4 | 86.8 |
| Canran plant/pobl ifainc ddi-Gymraeg Cymru sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn | 76.0 | 83.1 | 83.0 | 88.9 | 80.4 |
| Canran oedolion Cymraeg Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 46.0 | 44.2 | 47.2 | 48.9 | 50.0 |
| Canran oedolion di-Gymraeg Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 38 | 31.4 | 38.2 | 38.1 | 42.3 |
| Canran plant/pobl ifainc Cymraeg Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 87.4 | 88.4 | 83.4 | 90.3 | 90.6 |
| Canran plant/pobl ifainc di-Gymraeg Cymru sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn | 75.6 | 81.7 | 79.7 | 87.4 | 83.5 |

Sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru

| Nodweddion gwarchodedig | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| Digwyddiadau sy'n targedu: | No. | No. | No. | No. |
| Pobl anabl | 433 | 794 | 875 | 791 |
| Grwpiau duon ac ethnig | 251 | 632 | 275 | 228 |
| Plant a phobl ifainc | 1,519 | 3,400 | 1,461 | 2,525 |
| Pobl hŷn (50+) | 844 | 428 | 319 | 289 |
| Lesbiaid, hoywon neu ddeurywolion | 184 | 219 | 511 | 71 |
| Menywod beichiog a mamau newydd | 64 | 395 | 410 | 451 |
| Pobl grefyddol neu at ddibenion crefyddol arall | 56 | 59 | 7 | 21 |
| Pobl drawsrywiol a aeth (neu'n mynd) drwy'r broses o ailbennu eu rhywedd | 71 | 88 | 41 | 20 |
| Cyfanswm y digwyddiadau targedol | 3,422 | 6,015 | 3,899 | 4,396 |
| Sesiynau ymgyfranogol sy'n targedu: | | | | |
| Pobl anabl | 7,554 | 8,422 | 11,127 | 4,167 |
| Grwpiau duon ac ethnig | 224 | 295 | 317 | 1,349 |
| Lesbiaid, hoywon neu ddeurywolion | 75 | 171 | 1 | 11 |
| Pobl hŷn (50+) | 1,084 | 1,203 | 1,709 | 1,636 |
| Menywod beichiog a mamau newydd | 193 | 49 | 39 | 50 |
| Pobl grefyddol neu at ddibenion crefyddol arall | 58 | 2 | 81 | 16 |
| Pobl drawsrywiol a aeth (neu'n mynd) drwy'r broses o ailbennu eu rhywedd | 0 | 148 | 2 | 1 |
| Plant a phobl ifainc | 44,118 | 43,212 | 42,545 | 37,953 |
| Cyfanswm y sesiynau ymgyfranogol targedol | 53,334 | 53,502 | 55,821 | 45,183 |

| Cyflogaeth yn sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gweithwyr anabl | 88 | 72 | 65 | 102 | 102 |
| Cyfanswm y gweithwyr duon ac ethnig | 101 | 122 | 163 | 136 | 159 |
| Cyfanswm y lesbiaid, hoywon a deurywolion | 61 | 71 | 113 | 120 | 134 |
| Cyfanswm y bobl hŷn | 519 | 539 | 602 | 805 | 729 |
| Cyfanswm y bobl grefyddol | 30 | 59 | 70 | 157 | 202 |
| Cyfanswm y menywod beichiog neu ar gyfnod mamolaeth | 51 | 43 | 36 | 43 | 40 |
| Cyfanswm y bobl drawsrywiol | 0 | * | 0 | * | 0 |

* cuddir y gell i gadw cyfrinachedd

| Byrddau rheoli'r sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y bobl anabl ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | 14 | 28 | 25 | 17 | 17 |
| Cyfanswm y bobl dduon ac ethnig ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | 10 | 6 | 11 | 8 | 12 |
| Cyfanswm y lesbiaid, hoywon neu ddeurywolion ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | 15 | 22 | 34 | 29 | 36 |
| Cyfanswm y bobl hŷn (dros 50 oed) ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | 346 | 307 | 386 | 360 | 377 |
| Cyfanswm y bobl grefyddol ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | 2 | 27 | 31 | 20 | 27 |
| Cyfanswm y menywod sy'n feichiog neu sydd ar gyfnod mamolaeth ar y byrddau rheoli/ pwyllgorau ymgynghorol | * | 0 | 5 | 5 | 6 |
| Cyfanswm y bobl drawsrywiol ar y byrddau rheoli/pwyllgorau ymgynghorol | 0 | 0 | * | 0 | 0 |

*cuddir y gell i gadw cyfrinachedd

| Gweithgarwch Noson Allan | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd mewn clystyrau Cymunedau'n Gyntaf | 102 | 82 |
| Cyfanswm y tocynnau a werthwyd | 5158 | 4,641 |

| Arian y Loteri i brosiectau sy'n digwydd mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf* | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Nifer y prosiectau a ariannwyd | 359 | 303 |
| Cyfanswm a ariannwyd | £9,087,509 | £7,964,148 |

* Mewn rhai achosion nid yw'r prosiectau sy'n digwydd yn gyfyngedig i ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Ond mae ganddynt elfen o'r prosiect sy'n digwydd yn yr ardaloedd hynny.

# Dangosyddion economaidd

| Cyflogaeth | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm gweithwyr yn sefydliadau'r Portffolio (gan gynnwys gwirfoddolwyr) | | | 4,935 | 5,445 | 5,570 | 5,222 |
| Cyfanswm gweithwyr yn sefydliadau'r Portffolio (ac eithrio gwirfoddolwyr) | | | 3,704 | 4,135 | 4,217 | 3,937 |

| Cyfanswm cyflogaeth yn y sector celfyddydol (ac eithrio pobl hunangyflogedig) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9001 : Y celfyddydau perfformio | 1,000 | 1,300 | 1,200 | 1,100 | 1,250 | |
| 9002 : Gweithgareddau cefnogi'r celfyddydau perfformio | 100 | 100 | 100 | 100 | 225 | |
| 9003 : Creu'n artistig | 500 | 500 | 400 | 400 | 900 | |
| 9004 : Gweithredu cyfleusterau celfyddydol | 700 | 900 | 1,200 | 1,100 | 1,000 | |
| **Cyfanswm cyflogaeth yn y sector celfyddydol - Cymru** | **2,300** | **2,800** | **2,900** | **2,700** | **3,375** | |

| Buddsoddi yn y celfyddydau | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru (£) | | 28,385,880 | 28,128,713 | 27,733,493 | 27,007,391 |

| Incwm | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trosiant blynyddol sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru (£) | | 112,230,958 | 111,436,220 | 100,919,928 | 96,425,178 |
| Incwm a enillodd sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru (£) | | 50,357,348 | 48,834,025 | 21,779,675 | 34,848,275 |

| Gwerth gros a ychwanegir | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfraniad at economi diwydiant y celfyddydau, adloniant a hamdden (£ miliwn) | 587 | 715 | 662 | 601 | 608 |
| Canran holl ddiwydiant Cymru | 1.2 | 1.4 | 1.2 | 1.1 | 1.1 |

| Buddsoddi | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfleoedd hyfforddiant a dysgu | | | | |
| Nifer yr hyfforddeion yn sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru | 72 | 61 | 45 | 37 |
| | | | | |
| Nifer y sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd gan sefydliadau'r Portffolio | 4,163 | 4,189 | 7,372 | 6,512 |
| Mynychiadau mewn sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd gan sefydliadau'r Portffolio | 14,431 | 23,955 | 14,488 | 14,599 |
| | | | | |
| Arian a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddi - Sefydliadau | | | | |
| Nifer y ceisiadau llwyddiannus | | 28 | 19 | 23 |
| Cyfanswm a ariannwyd | | £588,832 | £378,028 | £520,235 |
| | | | | |
| Arian a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddi - Pobl Greadigol broffesiynol (Datblygu Proffesiynol) | | | | |
| Nifer y ceisiadau llwyddiannus | | 10 | 28 | 17 |
| Cyfanswm a ariannwyd | | £25,208 | £60,776 | £37,679 |
| | | | | |
| Gweithgarwch sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru | | | | |
| Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd gan sefydliadau'r Portffolio | 16,964 | 21,747 | 18,336 | 24,014 |
| Mynychiadau i ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan sefydliadau'r Portffolio | 3,081,319 | 3,952,302 | 3,740,833 | 4,157,468 |

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

www.celf.cymru